# GREEN GEN CYMRU LIST OF SUPPLIERS/SUBCONSULTANTS RHIWLAS

Dyma restr o'r cyflenwyr sydd ar hyn o bryd yn rhan o'r gadwyn gyflenwi ar gyfer prosiect Rhiwlas i gynnal arolygon ar ran Green Generation Energy Networks Cymru Limited.

Rydym yn cyhoeddi'r rhestr hon er mwyn i'r bobl mae ein harolygon yn effeithio arnynt gael ffordd syml o wirio'n annibynnol a yw staff sy'n cynnal arolygon yn gysylltiedig â ni, ond caiff ei chyhoeddi heb ragfarn i'n disgresiwn i gyfarwyddo ac i awdurdodi staff priodol i fynd ar dir i gynnal arolygon yn unol â'n pwerau o dan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016. Mae'r rhestr yn gywir adeg ysgrifennu ac efallai byddwn yn diweddaru'r rhestr o bryd i'w gilydd yn ôl ein disgresiwn. O bryd i'w gilydd, efallai byddwn yn cyfarwyddo arolygon gan gyflenwyr gwahanol nad ydynt ar y rhestr hon eto. Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n mynd ar dir yn unol â'n pwerau o dan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 allu dangos tystiolaeth o'r awdurdodiad hwnnw.

Cysylltwch â WSP ar y manylion cyswllt sydd yn eu gohebiaeth os oes gennych unrhyw ymholiadau.

**Cyflenwyr / Is-ymgynghorwyr GGC Rhiwlas**

a) WSP UK Ltd
b) Bowland
c) Sweco
d) ARK Maintenance Limited
e) Stantec
f) Power Grid Civils Ltd, a'u his-gontractwyr Causeway Geotech Ltd
g) Andrew Parry – Gwirio cydymffurfiaeth safle Iechyd a Diogelwch.

Bydd pob Contractwr Awdurdodedig yn cynnal asesiadau risg parhaus wrth fynd ar dir a'i arolygu yn unol â'r arferion gorau gan ystyried y math o arolwg sy'n cael ei gynnal. Os oes unrhyw risgiau neu beryglon hysbys mae ar berchennog eisiau rhoi gwybod amdanynt i'r Contractwyr Awdurdodedig, gellir nodi'r rhain drwy farcio'r cynllun sydd ynghlwm wrth yr hysbysiad a gyhoeddwyd a'i ddychwelyd i'r Asiant Tir yn yr amlen barod a ddarparwyd. Fel arall, gall Perchnogion a Meddianwyr gysylltu â'r Asiantau Tir gan ddefnyddio'r manylion cyswllt i drafod ymhellach.